

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Dyddiad/Date: 4 June 2020

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Hoffwn ddechrau fy neges drwy ddiolch ichi am eich cefnogaeth a'ch amynedd dros y deg wythnos diwethaf. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i chi am yr holl waith rydych chi wedi'i wneud i helpu'ch plentyn ddysgu gartref ers i'r ysgolion gau ym mis Mawrth.

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ddoe, ac er bod awdurdodau lleol Cymru yn aros am ragor o fanylion, rwy'n siŵr eich bod yn awyddus i wybod beth fydd yn digwydd yn ystod yr wythnosau nesaf mewn perthynas ag ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

Gwyddom yn awr y bydd nifer o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgolion o 29 Mehefin ymlaen ac y bydd tymor yr haf yn para wythnos ychwanegol, tan 27 Gorffennaf. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd y bydd pythefnos o wyliau yn ystod hanner tymor yr hydref (gwyliau mis Hydref). Nid ydym yn gwybod eto ai'r wythnos yn dechrau ar 19 Hydref ynteu'r wythnos yn dechrau ar 2 Tachwedd fydd yr wythnos ychwanegol.

Pan fydd ysgolion yn ailagor, ni fyddant yn gweithredu fel o'r blaen. Bydd llai o ddisgyblion ym mhob ystafell ddosbarth ac, fel sydd wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf, bydd yr ysgolion yn parhau i baratoi cyfleoedd dysgu personol ar-lein i'r holl ddisgyblion.

Dros y bythefnos nesaf, bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi i ddweud sut y bydd dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol. Mae'n bwysig nodi y bydd dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol yn raddol. Hynny yw, ni fydd yr holl ddysgwyr yn dychwelyd yr un pryd a, phan fyddant yn dychwelyd, gall y diwrnod ysgol ddechrau a gorffen ar amseroedd gwahanol i ddysgwyr gwahanol. Gall hyn gynnwys trefniadau gwahanol i frodyr a chwiorydd o wahanol oed sy'n mynd i'r un ysgol.

Rwy'n sylweddoli y gall y syniad o ddychwelyd i'r ysgol a pharatoi i wneud hynny fod yn anodd i rai dysgwyr a rhieni. Rwy'n rhagweld y bydd nifer o rieni a dysgwyr yn bryderus. Hoffwn eich sicrhau bod hyn yn ymateb gwbl naturiol i'r sefyllfa bresennol. O gofio hyn, rwy'n awyddus i wneud popeth i'ch sicrhau y bydd yr awdurdod lleol yn eich helpu i sicrhau mai lles emosiynol a chorfforol y dysgwyr fydd yn cael blaenoriaeth. Gan hynny, cofiwch fod yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion a'i bartneriaid i wneud yn siŵr bod mesurau ar waith i helpu'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol.

Diolch, unwaith eto, am eich amynedd a'ch cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Cofion gorau

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

Corporate Director – Education and Family Support/Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Bridgend County Borough Council

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnod testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh